



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Teithio i lechyd Gwell

Dulliau Mesur Canlyniadau

Gorffennaf 2015



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Teithio at Iechyd Gwell

Canllawiau ar Weithredu'r Polisi i Ymarferwyr Gofal Iechyd ar weithio'n effeithiol gyda Sipsiwn a Theithwyr

Dulliau Mesur Canlyniadau

Er mwyn helpu i roi'r canllawiau hyn ar waith, mae cyfres o gamau gweithredu wedi'u nodi isod i'w cwblhau gan reolwyr Byrddau Iechyd Lleol fel Dulliau Mesur Canlyniadau. Er nad yw'r rhain yn orfodol, mae Byrddau Iechyd Lleol yn cael eu hargymell i gymryd camau i ymateb i bob un o'r Dulliau Mesur Canlyniadau. Dewiswyd y Dulliau hyn o Fesur Canlyniadau yn dilyn dadansoddiad o'r ymchwil a'r gwaith maes, a gofynnir i Fyrddau Iechyd Lleol (BILI) ysgrifennu i Lywodraeth Cymru erbyn y dyddiadau a nodir gyda thystiolaeth yn dangos eu bod wedi'u cyflawni.

1. Erbyn 29 Ionawr 2016: Dylai pob BILI fod wedi datblygu a chytuno ar drefniadau gyda phartneriaid (gan gynnwys yr awdurdod lleol a'r Heddlu) i reoli asesiadau iechyd o fewn y protocol ar y cyd ar gyfer rheoli gwerysyla diawdurdod. Ceir enghraifft o adran iechyd o fewn protocol yn Atodiad 4.
2. Erbyn 29 Ionawr 2016: Dylai pob BILI ac Ymddiriedolaeth fod wedi canfod faint o wybodaeth a dealltwriaeth sydd gan staff gofal iechyd am Sipsiwn a Theithwyr o ran eu hunaniaeth ddiwylliannol. Dylai'r canlyniadau gael eu defnyddio wedyn i ddatblygu hyfforddiant pellach o fewn hyfforddiant cydraddoldebau. Caiff ei argymhell bod hyfforddiant o'r fath gael ei ddatblygu a'i fonitro gyda Sipsiwn a Theithwyr eu hunain a sefydliadau sy'n gweithio gyda hwy.
3. Erbyn 29 Ebrill 2016: Dylai pob BILI, gan weithio fel y bo'n briodol gydag asiantaethau partner, fod wedi cwblhau Asesiad cyntaf o Anghenion Iechyd Sipsiwn a Theithwyr yn eu hardal ac wedi adrodd ar y canlyniadau i Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru. Ceir ffurflen enghreifftiol ar gyfer Asesiad o Anghenion Iechyd yn Atodiad 5.
4. Erbyn 30 Mehefin 2016: Dylai pob BILI ac Ymddiriedolaeth sicrhau, cymaint â phosibl, bod yr holl staff gofal iechyd wedi cwblhau'r pecyn e-ddysgu o fewn yr hyfforddiant cydraddoldebau, *Fy Nhrin yn Deg*¹ a ddatblygwyd gan Ganolfan y GIG ar gyfer Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a'r GIG yng Nghymru. Mae gwaith ar y gweill i gynnwys senario penodol sy'n ymwneud â Sipsiwn a Theithwyr o fewn y pecyn hwn.

¹ Canolfan y GIG ar gyfer Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Hydref 2013. *Pecyn e-ddysgu Fy Nhrin yn Deg*. Cewch fynediad trwy borth Learning@NHS Wales. Ewch at y dudalen www.mle.wales.nhs.uk a chwiliwch am 'Fy Nhrin yn Deg'. <https://www.wales.nhs.uk/sites3/page.cfm?orgid=256&pid=70042>

Caiff y gwaith sy'n mynd rhagddo i gyflawni'r Dulliau canlynol o Fesur Canlyniadau ei arwain gan Lywodraeth Cymru.

1. Erbyn 31 Mawrth 2016: Dylai Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, mewn partneriaeth gyda Sipsiwn a Theithwyr ac asiantaethau sy'n gweithio gyda hwy, ddatblygu ystod o ddeunyddiau am iechyd a gofal iechyd i Sipsiwn a Theithwyr.
2. Erbyn 31 Mawrth 2016: Dylai pob BILI ac Ymddiriedolaeth fod wedi ymgysylltu â datblygiadau a arweinir gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod categorïau ethnig Cyfrifiad 2011 yn rhan o systemau gweithredol lleol priodol a phrosesau adrodd canolog.